

# Cyngor Cymuned Llanbadrig Community Council

## Cofnodion o gyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd nos Lun 23/10/2017 Minutes of the Full Council meeting held on Monday evening 23/10/2017

**Presennol / Present:** Derek Owen (Cadeirydd/Chair), Elfed Jones, Jack Longman, Roger Dobson, Enid Jones, Carys Davies, Dave Livingstone, Rhian Hayes, Dei Owens, Cyng/Cllr Richard Griffiths, Cyng/Cllr Aled Jones

**Yn Bresennol / In Attendance:** Carli Evans-Thau (Clerc/Clerk), Richard Foxhall (Horizon), Delyth Owen (Horizon)

**Ymddiheuriadau / Apologies:** Elen Pritchard, Cyng/Cllr Richard Jones, Eira Parry (Cyfieithu/Translation),

### **1 Croeso / Welcome**

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Derek Owen ac fe groesawyd pawb oedd yn bresennol a diolchwyd iddynt am eu dealltwriaeth wrth ohurio'r cyfarfod oherwydd tywydd gwyllt. Croesawyd Rhian Hayes yn aelod newydd o'r Cyngor i'w chyfarfod cyntaf.

*The meeting was chaired by Derek Owen and all present were welcomed and thanked for their understanding when the meeting was postponed due to the wild weather. Rhian Hayes was welcomed as a new member of the council to her first meeting.*

### **2 Datgan Diddordeb / Declaration of Interest**

Roger Dobson – Wylfa Newydd

### **12 Wylfa Newydd**

Cafwyd ddiweddariad gan Richard Foxhall o'r hyn sydd wedi bod yn digwydd ar safle a gyda'r prosiect yn gyffredinol dros yr wythnosau diwethaf.

Mae ymgynghoriad ar gyfer y ceisiadau cynllunio am y gwaith i uwchraddio'r A5025 a chlirio'r safle. Mae'r ymateb hyd yma wedi bod yn siomedig. Gobeithir gallu dechrau ar y gwaith i glirio'r safle ym mis Chwefror, a'r gwaith i'r lon o fis Medi 2018. Mae cyfle i'r aelodau gwrdd ag aelod o dim cynllunio Horizon yn y cyfarfod nesaf os oes angen.

Cadarnhawyd bydd cyflwyniadau a digwyddiadau gwybodath i'w cynnal yn dilyn y gwaith archaeolegol sydd wedi cymryd lle dros y misoedd diwethaf. Bydd gwybodaeth ac esiamplau o'r hyn a ddarganfyddwyd i'w gweld yn y ganolfan ymwelwyr ymhen amser.

Diolchwyd i'r cynrychiolwyr am eu hamser ac am ddod i'r cyfarfod. Wedi i'r cynrychiolwyr adael, cafwyd drafodaeth ar sut dylid ymatebi'r ymgynghoriad. Teimlwyd nad oedd Horizon yn gwrando ar y gymuned ond yn mynd drwy'r broses o ymgynghori er budd eu prosiect. Cytuno anfon yr ymateb sydd wedi ei anfon allan eisioes gan Roger Dobson a meddwl yn ddwys sut bydd ymateb i'r ceisiadau cynllunio pan byddent yn dod ger bron y Cyngor.

*Richard Foxhall gave an update of activities on site and with the project in general over the last few weeks.*

*There is a consultation for the planning applications for the upgrading of the A5025 and site clearance. The response to date has been disappointing. It is hoped that the site clearance work can start in February and the upgrading of the road in September 2018. There is an opportunity for the members to meet with a member of the Horizon planning team at the next meeting if necessary.*

*It was confirmed that presentations and information sessions in the community will follow the archaeological work that has taken place over the last few months. Information and examples of the artefacts will also be seen in the visitor centre in time.*

*The representatives were thanked for their time and for attending the meeting. When the*

*representatives had left, a discussion followed regarding how to respond to the consultation. It was felt that Horizon were not listening to the community and were going through the consultation process for the benefit of their project. Agreed to send the response already circulated by Roger Dobson and to think of a response to the planning applications when they are presented to the Council for consideration.*

### **3 Mr Dewi Williams (CSYM/IACC) – Priffyrdd a Thramwy / Highways and Right of Way**

Nid oedd Dewi Williams yn gallu bod yn bresennol. Nid oedd yn gefnogol o'r cais am barth 20mya yn y pentref gan nodi na fyddai'r heddlu yn gefnogol ychwaith. Cynnigwyd cysylltu a prif weithredwr CSYM i nodi pryderon y gymuned am gyflymder cerbydau a diffyg croesfannau. Cytuno ceisio trefnu cyfarfod i ymweld a'r safleoedd gyda Dewi Williams a'r Cynghorwyr Sirol yn gyntaf. Cynig Aled Jones i drefnu.

*Dewi Williams was unable to be present. He was not supportive of the request for a 20mph zone in the village noting that the police would not be supportive either. It was proposed to contact the IACC chief executive to note the community's concerns regarding the speed of vehicles and the lack of crossings. Agreed to try and arrange a site visit with Dewi Williams and the county councillors in the first instance. Cllr Aled Jones to arrange.*

### **4 Cofnodion Cyfarfod Diwethaf / Minutes of the Last Meeting**

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir. Cynigwyd gan Elfed Jones, eiliwyd gan Carys Davies. *The minutes were confirmed correct. Proposed by Elfed Jones, seconded by Carys Davies.*

### **5 Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes**

#### **5.1 Grant AHNE / AONB Grant**

Nodwyd sioc yr aelodau ar glywed costau bagiau baw cwn arbennigol gan CSYM. Cytuno gwneud cymhariaeth prisiau ar gyfer dosbarthwyr a bagiau. Cytuno na fyddai'r prosiect yn mynd yn ei flaen os nad oes costau mwy ffafriol. Byddai angen cadarnhad gan CSYM mai nhw fyddai'n gyfrifol am wagio unrhyw finiau newydd a osodir fel rhan o'r prosiect.

*The members noted their shock at hearing the cost of the specialist dog poo bags from IACC. Agreed to compare prices for the bags and the dispensers. Agreed that the project would not go ahead unless there are more favourable costings. Confirmation would be required from IACC that they would be responsible for emptying any bins installed as part of the project.*

#### **5.2 Glendid Traeth / Cleanliness of the Beach**

Cafwyd wybod bod safonau dwr y traeth wedi methu a chyrraedd y lefelau angenrheidiol unwaith eto eleni. Mae cyfarfod wedi ei drefnu gyda'r asiantaethau yn Llangefni yfory ac fe fydd gan Derek Owen fwy o wybodaeth wedi hynnu. Deallwyd bod CSYM eisioes wedi cysylltu a Cyfoeth Naturiol Cymru i ddatgan eu siom nad ydynt wedi cyflawni yr hyn oeddent wedi ei addo. Mae nifer o gwestiynnau heb eu hateb ganddynt. Bydd cyfarfod cyhoeddus i'w gynnal ddiwedd mis Tachwedd. Elfed Jones i wneud ymholiadau ynglŷn ag argaeledd y Neuadd.

*The meeting was informed that the water quality had failed to reach the necessary standards again this year. A meeting has been arranged with the agencies at Llangefni tomorrow and Derek Owen will have more information following this. It was understood that IACC have already contacted Natural Resources Wales to voice their disappointment that they had not achieved what was promised. A number of questions remain unanswered. A public meeting is to be held at the end of November. Elfed Jones to make enquiries into the availability of the Hall.*

#### **5.3 10-12 Stryd Fawr/ High Street**

Cafwyd wybod bod Carys Davies wedi paratoi cynllun ar gyfer y gwaith sydd ei angen i'r siop ac wedi ei anfon at y tri oedd wedi dangos diddordeb yn yn y gwaith yn y gorffennol. Cytuno cysylltu ag adeilawyr eraill gan bydd angen tri pris am y gwaith. Gobeithir gallu cwblhau rhan un (y siop) a rhan dau (y fflat) cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Diolchwyd i Carys Davies am ei gwaith.

*Carys Davies has prepared a specification for the necessary work at the shop and has contacted the three who had shown an interest in the work previously. Agreed to contact another builder as three quotes are required for the work. It is hoped to be able to complete phase one (shop) and*

*phase two (flat) before the end of the financial year. Carys Davies was thanked for her work.*

#### **5.4 Meinciau (cyffredinol) / Benches (general)**

Esboniwyd er budd Rhian Hayes sut mae cael meinciau coffa i'r pentref. Nodwyd bod y meinciau yn Nhregele wedi blino ac angen sylw. Cafwyd wybod bod Elfed Jones wedi archebu 6 mainc newydd (3 i'r prom a 3 i'r pier), mae rhain eisioes wedi eu clustnodi ar gyfer teuluoedd. Mae'r pwyllgor cyllid wedi cytuno talu am eu danfon a'u gosod gan bod y plinth yno eisioes.

*It was explained for Rhian Hayes' benefit how memorial benches are obtained for the village. It was noted that the benches in Tregele were tired and needing attention. Elfed Jones informed those present that he had ordered 6 new benches (3 for the prom and 3 for the pier), these have already been allocated to families. The finance committee have agreed to pay the carriage costs and installation as the plinth is already in place.*

#### **5.5 Toiledau Stryd / Street Toilets**

Cytuno derbyn pris o £490 am giat newydd ar gyfer y tu allan er mwyn gallu cloi'r adeilad. Elfed Jones i wneud trefniadau.

*Agreed to accept a quote of £490 for a new gate for the outside to be able to lock the building. Elfed Jones to make arrangements.*

#### **5.6 Di-ffibrileiddwyr / Defibrillators**

Nodwyd nad oedd Cwmni Cemaes wedi gosod y bocsg hyd yma, ond y bydd yn cael ei osod ar y ganolfan.

*It was noted that Cwmni Cemaes are yet to install the box, but it is agreed that it will be fitted to the heritage centre.*

#### **5.7 Scottish Power**

Daw ebost gan y cwmni yn cynnig cyfrannu tuag at gost diffibrileiddiwr i'r gymuned. Cytuno ymateb a gofyn am ddau flwch a dau beiriant os yn bosib (un i Tregele).

*An email from the company offering to contribute towards the cost of a community defibrillator. Agreed to respond asking for two boxes and two defibrillators if possible (one for Tregele).*

#### **5.8 DU Construction**

Daw rhestr o enwau posib ar gyfer y datblygiad newydd. Cytuno cynnig Stad Cae Rhun gan mai dyma enw'r ffermdy gwreiddiol ar y safle.

*A list was presented of possible names for the new development. Agreed to suggest Stad Cae Rhun as this was the name of the original farmhouse on the site.*

#### **5.9 Cofeb / Memorial**

Cytuno gwahodd Eric Torr i'r cyfarfod nesaf i roi ddiweddariad ar y prosiect a dangos y cynlluniau sydd ar y gweill. Mae'r cyn filwyr yn gweithio'n galed i dwtio'r gofeb ar gyfer Sul y Cofio. Gobeithir bydd y gwaith adnewyddu wedi ei gwblhau ar gyfer y camlwyddiant yn 2019.

*Agreed to invite Eric Torr to the next meeting to give an update on the project and show the proposed plans. The military veterans are working hard to tidy the memorial for Remembrance Sunday. It is hoped that the refurbishment work will be completed by the centenary in 2019.*

### **6 Adroddiad Pwyllgor Cyllid / Finance Committee Report**

Cafwyd grynodedb o'r cyfarfod gan Carys Davies. Nid oedd Gareth Jones yn gallu bod yn bresennol gan bod y cyfarfod wedi ei ohurio. Gobeithio gallu trafod Caffi Bach Traeth Mawr mis nesaf. Nodwyd bod adroddiad yr archwiliwr allannol wedi cyrraedd erbyn hyn a'u bod wedi nodi tri pwynt. Bydd y clerc yn cysylltu a hwy ynglŷn a'r wefan. Daw ebost gan Un Llais Cymru ynglŷn a chodi tal am gladdu plant (dan 18), mae'r pwyllgor cyllid wedi penderfynnu na fyddai'r cyngor yn codi tal am gladdu plant o hyn allan. Pawb yn hapus a'r penderfynniad. Mae meinciau a 10-12 stryd fawr wedi eu trafod eisioes.

Bydd hysbysebion ar gyfer cytundeb torri gwair y caeau chwarae, y fynwent a'r llwybrau cyhoeddus yn cael eu cadarnhau yn fuan. Cytuno bod angen i'r llwybrau gael eu torri mwy na dwywaith y flwyddyn. Cytuno gofyn i CSYM os oes mwy o arian ar gael tuag at y gwaith.

*Carys Davies gave a summary of the last meeting. Gareth Jones was unable to attend as the meeting had been postponed. It was hoped to be able to discuss Caffi Bach Traeth Mawr next month. It was noted that the external auditor's report had been received and that three points had been raised. The clerk was to contact them regarding the website. An email from One Voice Wales was received regarding the burial of children (under 18). The finance committee have agreed that the council would not charge for the internment of children from now on. All in agreement with the decision. Benches and 10-12 High Street have already been discussed.*

*Advertisements for the grass cutting contracts for the footpaths, play areas and cemetery will be confirmed soon. Agreed that the footpaths should be cut more than twice a year. Agreed to ask IACC if further funding is available towards the work.*

## **7 Rheolaeth yr Harbwr / Harbour Management**

Cafwyd adroddiad cryno gan Roger Dobson ac fe ddosbarthwyd gopïau o'i adroddiad i bawb oedd yn bresennol. Diolchwyd iddo am ei gyfraniad.

Nodwyd bod peth difrod wedi ei wneud i Piar Bach yn y stormydd diweddar. Cadarnhawyd bod Gwylwyr y Glannau yn ymwybodol o'r sefyllfa. Bydd angen gosod bwis i ddangos y strwythur cyn gynted a phosib i ddiogelu cychod. Bydd angen trafodaethau pellach ynglŷn a dyfodol Piar Bach.

*Roger Dobson gave a short report, and copies of his report were distributed to all present. He was thanked for his contribution.*

*It was noted that Piar Bach had suffered some damage in the recent storms. It was confirmed that the Coastguard are aware of the situation. Buoys and markers will need to be placed asap to warn vessels of the structure. Further discussion is required on the future of Piar Bach.*

## **8 Pwyllgor y Pentref / Village Committee**

Cafwyd ddiweddariad gan Elfed Jones am yr syniadau diweddaraf ynglŷn a lleoli'r bwiau. Mae'n debyg nad yw'r swyddogion cynllunio yn gefnogol iawn o'r cynllun fel ag y mae. Cynnigwyd bod y Cynghorwyr sirol yn cwrdd a Connor Watkinson sydd wedi bod yn arwain ar y prosiect. Aled Jones i drefnu cyfarfod. Diolchwyd i Elfed Jones am ei waith i drefnu arwyddion croeso newydd wrth yrru i fewn i'r pentref. Cytuno bod angen i'r bwyllgor y pentref cwrdd cyn y cyfarfod llawn nesaf.

*Elfed Jones gave an update on the most up to date ideas to site the buoys. It seems that the planning officers are not very supportive of the project as it stands. It was proposed that the county councillors meet with Connor Watkinson who has been leading on the project. Aled Jones to arrange. Elfed Jones was thanked for his work to arrange the new welcome signs on driving into the village. Agreed that the village committee should meet before the next full council meeting.*

## **9 Cynllunio / Planning**

### **9.1 Ceisiadau / Applications**

Roedd un cais i'w ystyried / There was one application to consider:

- Peibron, Cemaes (20C211B) – roedd pryderon ynglŷn a mynediad i'r safle oddi ar yr A5025. / There were concerns regarding access to the site from the A5025.

### **9.2 Penderfyniadau / Decisions**

Cafwyd wybod am benderfyniadau'r Cyngor Sir fel a ganlyn:

*Members were informed of the County Council's decisions as follows:*

- Dim / None

**10** **Rheolau Sefydlog / Standing Orders**

Cadarnhawyd bod y ddogfen wedi ei anfon at yr holl aelodau cyn y cyfarfod, cadarnhawyd hefyd bod y pwyllgor cyllid yn cymeradwyo'r ddogfen. Mabwysiadwyd y ddogfen yn unfrydol.

*It was confirmed that the document had been circulated to all members prior to the meeting, it was also confirmed that the finance committee had endorsed the document. The document was adopted unanimously.*

**11** **Gohebiaeth / Correspondence**

**11.1** **Grid Cenedlaethol / National Grid**

Cylchlythyr cymunedol a ddiweddariad am y prosiect / *Community newsletter and project update*

**11.2** **Pwyllgor Safonau / Standards Committee**

Cafwyd ddyddiadau ar gyfer hyfforddiant ar y cod ymddygiad. Gofynnwyd i'r aelodau gadarnhau gyda'r clercc cyn gynted a phosib pa bryd oeddent am fynychu.

*Dates for code of conduct training were forwarded. Members were asked to confirm with the clerk as soon as possible when they were going to attend.*

**11.3** **Panel Adolygiad Annibynnol / Independent Review Panel**

Daw holiadur am ddyfodol cynghorau tref a chymuned. Cytuno cynnwys yn eitem ar agenda'r cyfarfod nesaf i gael trafodaeth pellach.

*A questionnaire regarding the future of town and community councils. Agreed to include as an agenda item for the next meeting for further discussion.*

**13** **Unrhyw Fater Arall / Any Other Business**

**13.1** **Hysbysebion / Advertisements**

Mae nifer o fusnesau wedi dechrau hysbysebu ac arddangos baneri ar ymyl y ffordd fawr yn yr ardal. Nid yw'r busnesau yma yn lleol i Gemaes ac mae'r baneri yn eu lle nes eu bod mewn darnau. Nid yw'r aelodau yn teimlo bod hyn yn deg tra bod baneri grwpiau cymunedol yn hyrwyddo digwyddiadau yn y gymuned yn cael ei tynnu i lawr. Cytuno ysgrifennu at CSYM i godi ymwybyddiaeth.

*A number of companies have taken to advertising and displaying banners on the roadside in the area. These businesses are not local to Cemaes and the banners are in place until they fall to pieces. Members did not feel this was fair as banners for community events arranged by community groups are taken down. Agreed to write to IACC to raise awareness.*

**14** **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf / Date of Next Meeting**

Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun Tachwedd 20 2017 am 7 o'r gloch.

*The next meeting will be held on Monday evening November 20 2017 at 7pm.*

Bu'r cyfarfod orffen am 21.50 / *The meeting closed at 21.50.*

CET10/2017

**Arwyddwyd / Signed**

**Derek Owen**

**Cadeirydd/Chair**